**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 07-02(p4)**

**Dyddiad:** **24 Ebrill 2002**
**Amser:** **2.00 - 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Y DIWEDDARAF AR BOLISI STRWYTHUROL A CHYDLYNIAD YR UE**

## Pwrpas y Papur

1. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am bapur i:

- Adrodd ar gynnydd mewn perthynas â chydlyniad Ewropeaidd; ac
- Adrodd ar waith sy'n cael ei gyflawni i asesu helaethder yr amrywiaethau o fewn rhanbarthau sy'n elwa o gronfeydd strwythurol a chronfeydd sydd ganddynt eisoes i fynd i'r afael â hwy.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Mae Rhan Un y papur yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y "drafodaeth gydlyniad" barhaus, gyda chrynodeb yn Atodiad A adroddiad cynnydd y Comisiwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae Rhan Dau yn ymwneud â gwaith ar werthuso'r cronfeydd strwythurol. Mae Atodiad B, er nad yw'n cynrychioli safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnig sylwebaeth gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol ar y defnydd o ddata gan y Comisiwn i ddangos gwahaniaethau rhanbarthol mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y pen, mewn ymateb i gwestiynau a godwyd yn flaenorol gan aelod o'r EDC.

3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a rhoi sylwadau ar y papur, a chytuno iddo gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (EEAC).

## Amseru

4. Nid oes unrhyw faterion amseru penodol.

## Rhan Un: Cefndir

5. Mynychodd aelodau'r EDC gyflwyniad gan swyddogion yr Adran Fasnach a Diwydiant (DTI) yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ym mis Hydref. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi diweddariad ar yr Ail Adroddiad ar Gydlyniad Economaidd a Chymdeithasol, yr Adroddiad Cynnydd Cyntaf. Ceir gorolwg o'r adroddiad cynnydd, a gyflwynwyd yn flaenorol mewn papur i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (EUR-01-02 [P.5], 13 Chwefror 2002), yn Atodiad A.

6. Bydd y DU yn cymryd rhan mewn gweithdai cydlyniad yn y dyfodol ym Mrwsel a fydd yn gyfle i gynnal trafodaethau technegol mwy manwl nag sydd wedi eu cynnal hyd yma, er nad yw'r Comisiwn eto wedi nodi union amcan y gweithdai na chyfraniad disgwyliedig yr aelod wladwriaethau. Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y rhain. Disgwylir adroddiad cynnydd pellach yn gynnar yn 2003, i'w ddilyn gan y Trydydd Adroddiad ar Gydlyniad Economaidd a Chymdeithasol. Bydd y Trydydd adroddiad, nad yw i'w ddisgwyl cyn diwedd 2003, yn cynnwys cynigion y Comisiwn ar gyfer cronfeydd strwythurol a chydlyniad ar ôl 2006.

7. Mae Llywodraeth y DU yn galw am "adolygiad sylfaenol" o'r cronfeydd strwythurol, pwynt a gefnogwyd yn llythyr Prif Weinidog Cymru at y Comisiynydd Michel Barnier dyddiedig 17 Rhagfyr 2001.

8. Mae'r adroddiad cynnydd yn dangos cydgyfeiriant ar lefel Aelod Wladwriaeth. Mae gan nifer o Aelod Wladwriaethau, gan gynnwys Sbaen a Phortiwgal, ddiddordeb mawr mewn trafod y gwahaniaethau rhanbarthol mewnol o fewn Aelod Wladwriaethau cyfredol ac a ydy cronfeydd strwythurol neu gydlyniad yn mynd i'r afael â hwy yn effeithiol ai peidio.

**Ystyriaeth**

9. Bydd Aelodau yn nodi fod yr Adroddiad Cynnydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2002, yn seilio'i ddadansoddiad ar UE o 25 Aelod Wladwriaeth yn hytrach na 27 (gan eithrio Romania a Bwlgaria am y tro).

10. Mae'r adroddiad cynnydd yn nodi'r "rhanbarthau lleiaf datblygedig" fel y brif darged ar gyfer polisi cydlyniad ar ôl 2006, yn seiliedig ar CMC y pen. Mae'n nodi na ddylai rhanbarthau Amcan 1 cyfredol brofi "diddymiad mewn cymorth, yn enwedig lle mae hyn yn sgil effaith ystadegol helaethiad" ond mae'n nodi nad yw'r ffyrdd o gyflawni hyn wedi eu cytuno hyd yn hyn. Mae'r adroddiad yn nodi fod dadleuon gwleidyddol ac economaidd wedi eu cynnig ar lefel ranbarthol o blaid ardaloedd trefol, ardaloedd sy'n profi ailstrwythuro economaidd neu rai sydd ag anfantais ddaearyddol barhaol. Amcan y Comisiwn yw ychwanegu gwerth at weithrediadau cenedlaethol, ac i sicrhau bod blaenoriaethau Cymunedol wedi eu targedu'n well gan wariant cydlyniad, gan gysylltu agenda Lisbon â chefnogaeth cronfeydd strwythurol.

11. Mae Atodiad B yn rhoi ystyriaeth dechnegol o'r mesurau anghyfartaledd a ddangosir yn yr Adroddiad Cynnydd.

***Y sefyllfa yng Nghymru***

12. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad (a'i chymheiriaid yn Seneddau Gogledd Iwerddon a'r Alban) wedi pwysleisio i'r DTI y diddordeb brwd yn nyfodol y cronfeydd sydd eisoes yn cael ei fynegi yn ein gwledydd. Bydd y diddordeb hwn yn siwr o gynyddu wrth i

bartneriaid yng Nghymru ddechrau creu eu safbwyntiau'u hunain am y dyfodol ac wrth i waith ar adolygiad cyfamserol o'r rhaglenni cyfredol ac agweddau eraill ar yr "adolygiad sylfaenol" ddechrau ildio canlyniadau llawn gwybodaeth.

13. Nodwyd ymateb cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad mewn llythyr at y Comisiynydd Michel Barnier fis Rhagfyr diwethaf, a darparwyd copi ohono i aelodau'r EDC a'r EEAC. Ystyriwyd ein sylwadau wrth gynhyrchu'r adroddiad cynnydd.

14. Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o ddirprwyaeth y DU yn y "gweithdai cydlyniad" a gynhelir ym Mrwsel cyn bo hir. Disgwylir i gynrychiolydd llywodraeth leol yng Nghymru fynychu fel rhan o ddirprwyaeth y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA). Mae safbwynt llywodraeth leol ar ôl-2006 yn cael ei ddatblygu gan grwp cydlyniad dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

***Safbwynt y DU***

15. Er nad yw Arlywyddiaeth bresennol yr UE wedi gweld unrhyw ddatblygiadau neu gyhoeddiadau pwysig ar bolisi cydlyniad, gyda'r pwnc yn codi braidd dim yn y cyngor Barcelona diweddar, mae Llywodraeth y DU yn disgwyl iddo dyfu'n fwy amlwg yn ystod y 12-18 mis nesaf. Bach iawn y mae Llywodraeth y DU ei hun wedi ei ddweud yn gyhoeddus hyd yn hyn; mae ei safbwynt yn y cam trafodaeth fewnol (mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn a byddant yn ymwneud yn agos â'r gwaith o ddatblygu safbwynt y DU). Deallir ei bod wedi croesawu'r adroddiad cynnydd gan ei fod yn cyflwyno'r drafodaeth mewn modd cytbwys ac nid yw'n bwriadu dod i gasgliadau nac ymrwymo i safbwyntiau arbennig yn y cam cynnar hwn.

16. Cynrychiolwyd Llywodraeth y DU mewn grwp gwaith gweithrediadau strwythurol diweddar ym Mrwsel, lle cyflwynodd y Sbaenwyr bapur manwl i'w drafod. Sbaen yw un o'r Aelod Wladwriaethau prin sydd wedi gwneud datganiadau cyhoeddus am y dyfodol ar hyn o bryd: yn gyffredinol, mae gan aelod wladwriaethau'r de safbwyntiau mwy cadarn eisoes am eu gobeithion ar gyfer ôl-2006 tra bod gwledydd y gogledd yn fwy awyddus i osgoi rhuthro'r drafodaeth i feysydd penodol mor gynnar yn y broses.

***Safbwyntiau Aelod Wladwriaethau eraill***

17. Er, yn gyffredinol, roedd ymatebion llawer o'r Aelod Wladwriaethau i'r Ail Adroddiad Cydlyniad yn dawedog, cynigodd yr Almaen **fodel cronfa net** lle byddai cyfranogwyr net i'r UE yn derbyn cyfran benodol gweddol fach (tua 10%) o lefelau derbyniadau presennol, gyda'r gweddill yn mynd i wladwriaethau ymgeisio yn Nwyrain Ewrop a'r tlotaf o'r UE-15. Mae'r Iseldiroedd wedi cynnig **dull cydlyniad** lle nad yw gwledydd sydd â CMC uwch na

chyfartaledd yr UE yn derbyn cronfeydd strwythurol. Mae Sbaen wedi galw am gynnal **Amcan 1** yn yr UE-15 yn ogystal â'i ehangu i'r gwladwriaethau ymgeisio.

18. Ni wyddys ymatebion aelod wladwriaethau i'r adroddiad cynnydd hyd yn hyn.

**Rhan dau: Arfarniad o effaith a gwerth ychwanegol Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y DU**

19. Mae cwestiynau am ba werth y gall yr UE ei ychwanegu at weithrediadau Aelod Wladwriaethau eu hunain ac a ddylai'r system o gefnogaeth ar gyfer cydlyniad fod yn fwy syml yn cael eu harchwilio'n llawn. Mae'r DTI wedi dechrau ar baratoadau ar gyfer prosiect gwerthuso a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r mater o werth ychwanegol ar gyfer y DU. Bydd yn gofyn:

- Beth oedd effaith fesuradwy'r Cronfeydd Strwythurol ar lefelau rhanbarthol a lleol?
- Ym mha ffyrdd eraill y bu'r Cronfeydd Strwythurol yn ddefnyddiol i'r DU?
- A allai mentrau cenedlaethol gyflawni canlyniadau tebyg i fesurau Cronfeydd Strwythurol mewn modd mwy effeithiol?

20. Mae'r DTI wedi comisiynu Prifysgol Strathclyde a Fraser Associates i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd, a bydd y canlyniadau'n llywio cynllun y gwerthusiad arfaethedig yn y dyfodol o effaith a gwerth ychwanegol menter a gweithgaredd adfywio a gyllidir gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop yn y DU.

21. Mae'r astudiaeth ddichonolrwydd ar hyn o bryd yn y cam "astudiaeth achos" a bydd yn cynnwys Cymru fel un o'r achosion a astudir. Pwrpas y cam hwn yw nodi'r gwahaniaethau rhwng pump neu chwech achos gwahanol yn cynnwys y Rhanbarthau Seisnig a'r gweinyddiaethau datganoledig. Bydd hyn wedyn yn cyfrannu at gynllun y prif werthusiad.

22. Roedd y gwaith maes ar gyfer gweddill yr astudiaeth ddichonolrwydd i'w gynnal yn yr wythnos yn dechrau 15 Ebrill 2002 gyda'r adroddiad terfynol drafft yn barod erbyn 6 Mai 2002.

23. Bydd y brif astudiaeth werthuso yn cychwyn ar ôl hynny. Bydd yn rhaid iddi ystyried y genhedlaeth flaenorol o raglenni Cronfeydd Strwythurol oherwydd bydd angen cylch rhaglennu cyflawn. Mae'n debyg y bydd yn gorgyffwrdd y gwerthusiad cyfamserol o'r genhedlaeth bresennol o raglenni.

24. Bydd y gwaith o Fonitro a Gwerthuso'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn cael ei gynnal gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) fel rhan o'u cylch gorchwyl i reoli a gweithredu y rhaglenni cronfeydd strwythurol presennol. Bydd gwaith WEFO yn llywio datblygiad polisi gweinidogol ar ddyfodol cronfeydd strwythurol. Mae eu strategaeth fonitro a gwerthuso yn cynnwys nod o i "gynhyrchu gwybodaeth i seilio arni benderfyniadau ar ymglymiad Cymru wrth fentrau Ewropeaidd yn y dyfodol ". I lywio'r ffordd y bydd Llywodraeth y

Cynulliad yn mynd ati i gwrdd â'r amcan hwn, mae swyddogion wedi cadw cysylltiad agos (drwy gyfrwng grwp llywio technegol) gydag astudiaeth DU-gyfan y DTI o werth ychwanegol Cronfeydd Strwythurol.

**Cydymffurfiaeth**

**25. Mae Llywodraeth y DU ar y blaen, fel Aelod Wladwriaeth, o ran datblygu a chydlynu polisi strwythurol a chydlyniad. Y DTI yw Adran flaen Llywodraeth y DU ar faterion cydlynu; tra bod y Concordat ar Gydlynu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd yn nodi'r canlynol:**

*"Cymryd rhan mewn ffurfio Polisi DU (gan gynnwys Datrys Anghydfodau)*

> B3.4 Bwriad y Llywodraeth yw y dylai Gweinidogion a swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig gymryd rhan lawn mewn trafodaethau yn Llywodraeth y DU ynglyn â llunio safbwynt polisi y DU ar yr holl faterion sy'n rhan o gyfrifoldeb y gweinyddiaethau datganoledig."

26. Mae'r Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a Rhanbarthau (DTLR), Seneddau'r Alban a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am reoli rhaglenni cronfeydd strwythurol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo rheolaeth y prif raglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru presennol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Cynghorir y Cabinet ar faterion polisi strwythurol a chydlyniad gan yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol.

27. Nid oes materion ariannol yn codi o'r papur hwn.

**Themâu trawsbynciol**

28. Mae'n debygol y bydd dyfodol y cronfeydd strwythurol o ddiddordeb i nifer o bwyllgorau pwnc, yn ogystal ag i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Argymhellir i'r Pwyllgor gytuno i ddosbarthu'r papur hwn i bwyllgorau eraill er gwybodaeth.

**Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd**

29. Paratowyd y papur hwn er gwybodaeth.

**Pwyntiau cyswllt**

- Adroddiadau Cydlyniad ac ôl-2006: Jackie Brown, Materion Ewropeaidd ac Allanol 2, Ffôn 029 20823157, e-bost jacqueline.brown@wales.gsi.gov.uk.

- Gwerthuso a Monitro rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cyfredol: Susan Denman, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Ffôn 029 20823943, e-bost susan.denman@wales.gsi.gov.uk.

- Steve Marshall, Cyfarwyddiaeth Ystadegol, Ffôn 029 20825868, e-bost steven.marshall@wales.gsi.gov.uk

**Darllen pellach**

- EUR-01-02 (p.5), papur a drafodwyd gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 12 Chwefror 2002.

- Gellir cael adroddiadau Comisiwn ar y Gwasanaeth Inforegio: www.inforegio.cec.eu.int (e-bost regio-info@cec.eu.int; ffôn: +32 2 296 0634)